Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Swyddog Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Teitl y Swydd:** | Ymchwilydd Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy (TRE) DATAMIND ac Arsyllfa Nodau Iechyd Meddwl y DU (MHG) |
| **Adran/Pwnc:** | Gwyddor Data / Dysgu Peirianyddol |
| **Cyflog:** | Gradd 8: £39,355 i £45,413 y flwyddyn ynghyd a buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos (100% CALl) |
| **Contract:** | Swydd am gyfnod penodol yw hon, tan fis Mai 2028.<br>Mae rhaglen Nodau Iechyd Meddwl y DU wedi'i hariannu tan fis Mawrth 2030, gyda photensial cryf i ymestyn y contract y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o 24 mis ar gyfer aelodau tîm sy'n perfformio'n dda. |
| **Lleoliad:** | Dyma swydd hybrid, a bydd deiliad y swydd yn gweithio ar Gampws Singleton |

**Prif Ddiben y Swydd**

Gwahoddir ceisiadau am swydd Swyddog Ymchwil Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy (TRE) DATAMIND ac Arsyllfa Nodau Iechyd Meddwl y DU (MHG) ym Mhrifysgol Abertawe, dan arweiniad yr Athro. Ann John.

Mae rhaglen Nodau Iechyd Meddwl y DU yn ymrwymiad cenedlaethol i wella canlyniadau iechyd meddwl ac atal hunanladdiad trwy ymchwil sy'n seiliedig ar ddata. Mae Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy (TRE) DATAMIND ac Arsyllfa Nodau Iechyd Meddwl y DU (MHG) yn darparu mynediad diogel at ddata iechyd ar raddfa'r boblogaeth sy'n cwmpasu miliynau o unigolion ar draws nifer o hafanau data yn y DU.

Fodd bynnag, mae'r setiau data cyfoethog hyn yn parhau i gael eu tanddefnyddio ar gyfer ymchwil Deallusrwydd Artiffisial/Dysgu Peirianyddol oherwydd tair her:

1. Bwlch Seilwaith Data: Mae data iechyd mewn Amgylcheddau Data Diogel (SDEs) yn aml ar ffurf amrwd neu led-amrwd, ac anaml iawn y cânt eu hoptimeiddio ar gyfer llifau gwaith dysgu peirianyddol. Mae nodweddion peirianyddol/peiriannu, aliniad amserol, a strwythurau data sy'n barod ar gyfer Dysgu Peirianyddol yn gofyn am biblinellau arbenigol.
2. Bwlch Trosi Dulliau: Nid yw offer ac arferion Dysgu Peirianyddol yn trosi'n uniongyrchol i amgylcheddau ymchwil diogel, gyda gofynion llywodraethu ac atgynhyrchadwyedd llym.
3. Bwlch Cymhwyso: Mae angen arddangosiadau ymarferol ar ymchwilwyr iechyd meddwl o sut y gall dulliau deallusrwydd artiffisial ddatblygu eu cwestiynau ymchwil wrth gynnal trylwyredd epidemiolegol a dehongliadwyedd clinigol.

Mae'r rôl hon yn mynd i'r afael â'r tair her, sef sefydlu'r seilwaith, yr offer, a'r cymwysiadau enghreifftiol a fydd yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwil iechyd meddwl sy'n cael ei hybu gan AI.

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

1. Dylunio a gweithredu piblinellau data sy'n trawsnewid cofnodion iechyd cymhleth a data am garfannau yn setiau data sy'n barod ar gyfer Dysgu Peirianyddol, gan gadw strwythur amserol, trin data coll yn briodol, a chynnal dilysrwydd epidemiolegol.
2. Datblygu llifau gwaith Dysgu Peirianyddol ar gyfer achosion defnyddio ymchwil iechyd meddwl cyffredin (e.e., rhagfynegi risg, modelu trywydd, ymateb i driniaeth) y gellir eu hailddefnyddio ar draws sawl prosiect.
3. Creu dogfennaeth a sgemâu metadata sy'n sicrhau bod setiau data sy'n barod ar gyfer Dysgu Peirianyddol yn cynnal y safonau tarddiad data ac atgynhyrchadwyedd llawn sy'n ofynnol ar gyfer cyhoeddiad a adolygwyd gan gymheiriaid.
4. Datblygu a defnyddio offer a llifau gwaith Dysgu Peirianyddol wedi'u haddasu ar gyfer SDEs, gan gynnwys

| | |
|---|---|
| | hyfforddi modelau, dilysu, tiwnio hyperbaramedrau, a fframweithiau gwerthuso.<br>5. Gweithredu arferion gorau ar gyfer Dysgu Peirianyddol mewn ymchwil epidemiolegol iechyd meddwl, gan gynnwys rhannu set ddata yn is-setiau hyfforddi a phrofi priodol, trin anghydbwysedd dosbarth, graddnodi ar gyfer cefnogi penderfyniadau clinigol, a dulliau dehongliadwyedd.<br>6. Sicrhau bod yr holl offer a ddatblygwyd yn cyd-fynd â safonau atgynhyrchadwyedd DATAMIND a bod modd eu rhannu ar draws rhwydwaith amgylchedd ymchwil dibynadwy y DU.<br>7. Arwain prosiectau ymchwil Deallusrwydd Artiffisial cymhwysol sy'n mynd i'r afael â chwestiynau iechyd meddwl blaenoriaethol, megis nodi llwybrau cleifion risg uchel, neu ragfynegi ymateb i driniaeth.<br>8. Paratoi allbynnau ymchwil ar gyfer cyhoeddiad a adolygir gan gymheiriaid mewn cyfnodolion perthnasol.<br>9. Cyflwyno gwaith mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol i ledaenu arferion gorau ar gyfer deallusrwydd artiffisial mewn ymchwil iechyd meddwl.<br>10. Darparu arweiniad a chefnogaeth anffurfiol i ymchwilwyr eraill sy'n defnyddio dulliau Dysgu Peirianyddol ar draws y rhwydwaith amgylchedd ymchwil dibynadwy.<br>11. Cyfrannu at geisiadau am gyllid a chynigion ymchwil, gan ddarparu arbenigedd technegol Deallusrwydd Artiffisial/Dysgu Peirianyddol ac adrannau methodoleg.<br>12. Bod yn hunangymhellol, cymhwyso a defnyddio ei fenter ei hun, â'r nod o ddod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau<br>13. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithwyr a phartneriaid eraill<br>14. Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes<br>15. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 16. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>17. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>18. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>19. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br>Ein Gwerthoedd:<br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein gallu creadigol, ein huniondeb a'n gallu i farnu i gyflwyno gwasanaethau a datrysiadau arloesol, effeithiol, ac effeithlon, sydd o ansawdd rhagorol.<br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.<br>Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | **Gwerthoedd:** |

| | |
|---|---|
| | 1. Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol<br>2. Gallu gweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid.<br>3. Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.<br><br>**<u>Cymwysterau:</u>**<br><br>4. PhD mewn Gwyddor Data, Dysgu Peirianyddol, Cyfrifiadureg, neu ddisgyblaeth gysylltiedig.<br><br>**<u>Profiad:</u>**<br><br>5. Tystiolaeth o arbenigedd mewn piblinellau Dysgu Peirianyddol, gan gynnwys gwerthuso modelau cadarn a pheryglon cyffredin (datgelu data (data leakage), gorffitio, tuedd wrth ddethol).<br>6. Profiad sylweddol o weithio gyda data mewn epidemioleg, gwybodeg iechyd, biowybodeg, a/neu feysydd gwyddor data.<br>7. Tystiolaeth o ysgrifennu a llunio papurau ymchwil, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir.<br>8. Tystiolaeth o'r capasiti i ddylunio ymchwil ac ysgrifennu ceisiadau am gyllid ymchwil allanol.<br>9. Tystiolaeth o ddylunio a chynnal gwaith dadansoddi cymhleth a dehongli'r canlyniadau.<br>10. Meddylfryd cydweithredol ynghyd â diddordeb gwirioneddol mewn pontio Deallusrwydd Artiffisial/Dysgu Peirianyddol ag ymchwil iechyd.<br><br>Gwybodaeth a Sgiliau:<br><br>11. Tystiolaeth o arbenigedd mewn Python ac SQL.<br>12. Y gallu i ddangos ffocws a chyfeiriad annibynnol sylweddol mewn ymchwil<br>13. Y gallu i reoli eich tasgau personol a gweithgareddau gweinyddol i fodloni terfynau amser.<br>14. Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>15. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>**<u>Meini Prawf Dymunol:</u>**<br><br>16. Profiad mewn ystadegaeth, epidemioleg a seicoleg.<br>17. Profiad ym maes ymchwil iechyd meddwl a gwybodeg iechyd.<br>18. Profiad o ddata iechyd, cofnodion iechyd electronig, neu setiau data biofeddygol.<br>19. Profiad o ddadansoddi data gofal iechyd hydredol a thrawstoriadol.<br>20. Profiad o ddadansoddi data arferol a data am garfannau.<br>21. Gwybodaeth am epidemioleg seiciatrig.<br>22. Profiad o fodelu rhagfynegol a dulliau dysgu peirianyddol.<br>23. Hanes o gyhoeddi mewn maes perthnasol. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Marcos Del Pozo Banos (m.delpozobanos@abertawe.ac.uk)<br>Amanda Marchant (a.l.marchant@abertawe.ac.uk) |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Athena SWAN
Silver Award
ECU GENDER CHARTER

Stonewall
CYMRU
DIVERSITY CHAMPION

HR EXCELLENCE IN RESEARCH